



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Uwchradd Cei Connah

**Lôn Golftyn
Cei Connah
Sir y Fflint
CH5 4BH**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Cei Connah

Enw'r darparwr	Ysgol Uwchradd Cei Connah
Awdurdod lleol	Cyngor Sir y Fflint
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	Anenwadol
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	1058
Disgyblion o oed ysgol statudol	1055
Nifer yn y chweched dosbarth	Amherthnasol
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%)	25.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%)	12.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	0.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	9.4%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/01/2023
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	24/11/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	23/01/2023

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru:
fyysgolleol.llyw.cymru

- a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi cael nifer o wahanol benaethiaid mewn cyfnod amser byr. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith ar gapasiti'r ysgol i gynnal ymagwedd gyson at wella agweddau allweddol ar ei gwaith. Er gwaethaf hyn, mae arweinwyr wedi meithrin ethos cynhwysol ac wedi datblygu ystod o strategaethau i gefnogi lles disgyblion. Mae gan y pennaeth newydd a benodwyd yn ddiweddar weledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol, ac mae'n ennill dealltwriaeth yn gyflym o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn narpariaeth yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gadarnhaol am eu profiad ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn teimlo nad ymdrinnir yn ddigon da â phroblemau fel bwlio, ac mae lleiafrif ohonynt yn teimlo nad yw ymagweddau'r ysgol at reoli ymddygiad yn gyson deg.

Er bod aelodaeth o'r uwch dîm arweinyddiaeth heblaw'r pennaeth wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dros gyfnod, mae eu rolau wedi mynd yn aneglur ac anghytwys. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i sicrhau gwelliant ac yn ei gwneud yn anodd iddynt gael eu dwyn i gyfrif yn llawn. Yn ychwanegol, nid yw systemau i werthuso darpariaeth yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon cadarn na manwl gywir. O ganlyniad, mae barn arweinwyr ar bob lefel ar berfformiad yr ysgol yn rhy hael. O ganlyniad, nid yw arweinyddiaeth wedi cael effaith ddigonol ar ansawdd yr addysgu na phresenoldeb, ymgysylltiad a chynnydd disgyblion, er enghraifft.

Ym mwyafrif yr achosion, mae'r addysgu'n briodol o effeithiol, ond ni chaiff disgyblion eu herio digon bob amser, sy'n cyfyngu ar y cynnydd a wnânt. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth fuddiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, nid oes ganddi strategaeth gydlynus ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a'r Gymraeg na'u medrau digidol.

Argymhellion

- A1 Mireinio rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr fel eu bod yn deg ac yn eu galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol ac yn cael eu dwyn i gyfrif am sicrhau gwelliant
- A2 Cryfhau prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- A3 Gwella addysgu ac asesu er mwyn herio ac ennyn ymgysylltiad pob un o'r disgyblion
- A4 Cryfhau'r ddarpariaeth i wella presenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion, a'u hagweddau at ddysgu
- A5 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol mewn llythrennedd, rhifedd y Gymraeg a'u medrau digidol

Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif werthusiad

Dysgu

Mewn gwersi, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn briodol, ac mae lleiafrif ohonynt yn cymhwyso hyn yn dda i gyd-destunau newydd, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio'u gwybodaeth am anadlu i ddeall y broses trylediad yn yr ysgyfaint. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf, er enghraifft wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o rôl newidiol menywod yn Yr Almaen Natsïaidd. Mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau unigol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig ac maent yn rhy oddefgar yn eu gwersi, yn aml o ganlyniad i ddiffygion mewn addysgu.

Gall mwyafrif y disgyblion ddod o hyd i wybodaeth berthnasol yn hyderus o amrywiaeth o destunau. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn dadansoddi deunydd ffynhonnell yn dda. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes gan ddisgyblion strategaethau darllen sydd wedi'u datblygu'n ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddadgodio geiriau anghyfarwydd, er enghraifft. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad ydynt yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm.

Mae tua hanner y disgyblion yn ysgrifennu â chywirdeb technegol addas. O gael y cyfle, mae lleiafrif ohonynt yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig wedi'i strwythuro'n briodol. Mae ychydig ohonynt yn llunio darnau rhugl, strwythuredig, er enghraifft wrth ddadansoddi barddoniaeth gan Maya Angelou. Fodd bynnag, nid yw tua hanner y disgyblion yn ysgrifennu â chywirdeb neu eglurder digonol. Yn rhannol, mae hyn oherwydd nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ysgrifennu'n estynedig ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd.

Yn ystod trafodaethau dosbarth, mae tua hanner y disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Maent yn defnyddio termau pwnc yn hyderus ac yn esbonio'u syniadau'n glir. Mae ychydig ohonynt yn mynegi eu hunain yn aeddfed ac yn huawdl. Mae tua hanner ohonynt yn amharod i gyfrannu ar lafar, ac yn rhoi ymatebion byr iawn, annatblygedig yn unig.

Er bod lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwersi Cymraeg, mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig, ac nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn mynychu unrhyw wersi Cymraeg ar hyn o bryd. Mae cyfleoedd cyfyngedig i ymarfer eu medrau y tu allan i wersi Cymraeg yn cyfyngu ar ddatblygiad disgyblion yn y maes hwn.

Mae gan fwyaf y disgyblion fedrau rhifedd cadarn. O gael y cyfle, maent yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i effeithlonrwydd ynni mewn gwyddoniaeth neu gyfrifo mantais fecanyddol lifer mewn dylunio a thechnoleg. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau rhif gwan, ac maent yn cael trafferth â lluos sylfaenol neu adnabod rhifau cysefin, er enghraifft.

Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft pan fyddant yn trin delweddau yn ddigidol mewn celf. Mae ychydig ohonynt yn dangos medrau meddwl cryf, er enghraifft trwy wneud

dadleuon argyhoeddiadol dros fynegiannau algebraidd cyfwerth. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Maent yn dylunio seinchwyddwyr, offer malu caniau a thyrbinau gwynt mewn dylunio a thechnoleg ac yn creu diorama safana mewn daearyddiaeth.

Lles ac agweddau at ddysgu

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da gan staff. Mae llawer ohonynt yn teimlo yr eir i'r afael yn briodol ag achosion o fwlio ac aflonyddu. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn teimlo nad yw'r staff yn delio'n ddigon da â bwlio. Yn ychwanegol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn credu na chaiff system yr ysgol ar gyfer gwobrau a chosbau ei chymhwyso'n ddigon cyson, sy'n arwain at ymdeimlad o annhegwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a pharchus â staff ac ymwelwyr, ac mae llawer ohonynt yn ymddwyn yn briodol mewn gwarsi. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio ac yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau dysgu, p'un a ydynt yn gweithio'n annibynnol neu mewn paru neu grwpiau bach. Mae tua hanner ohonynt yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn gwrando'n ofalus ar ddisgyblion eraill yn ystod trafodaeth ddosbarth. Mae ychydig ohonynt yn ddysgwyr gwydn a dyfeisgar ac yn cydweithio'n effeithiol wrth delio â thasgau heriol. Nid yw lleiafrif ohonynt yn ymgysylltu'n bwrpasol mewn gwarsi. Maent yn dibynnu'n ormodol ar eu hathrawon ac maent yn oddefgar yn eu dysgu. Mae hyn yn arbennig o amlwg lle mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel.

Mae presenoldeb disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn destun pryder. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd gwarsi'n hwyr yn rheolaidd, sy'n tarfu ar y dysgu ac yn cael effaith negyddol ar eu cynnydd nhw, a chynnydd disgyblion eraill.

At ei gilydd, mae disgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol a chwaraeon a gynigir.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn dda yn eu rôl fel llysgenhadon lles. At ei gilydd, mae cyfleoedd i ddisgyblion gael eu cynnwys yn gyfyngedig, ac nid ydynt yn ddigon amrywiol na chynrychioliadol o gymuned yr ysgol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a pharchus ar y ddwy ochr gyda'u dosbarthiadau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o dulliau addysgu effeithiol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd addas, o leiaf yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mewn lleiafrif o wersi, fodd bynnag, mae diffygion mewn addysgu – yn enwedig disgwyliadau isel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni – yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion.

Pan mae'r addysgu yn briodol o effeithiol, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o dasgau heriol sy'n adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir i ddisgyblion, ac yn gwneud defnydd da o dechnoleg ddigidol i

ennyn eu diddordeb, lle bo'n briodol. Mae'r athrawon hyn yn creu amgylchedd digynnwrf a chadarnhaol lle maent yn herio disgyblion yn briodol i ddatblygu eu hannibyniaeth mewn dysgu.

Mewn ychydig o achosion, mae angerdd athrawon tuag at eu pwnc yn helpu i ysbrydoli brwdfrydedd disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn defnyddio cynllunio gofalus i sicrhau rhediad cyflym i'r dysgu. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio holi'n fedrus i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i feddwl drostyn nhw'u hunain.

Lle nad yw addysgu'n ddigon effeithiol, mae hyn oherwydd nad oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel. Yn aml, caiff y gwersi hyn eu harwain gormod gan athrawon, sy'n atal disgyblion rhag cyfrannu'n ystyrlon a datblygu eu hannibyniaeth. Nid yw athrawon yn cyfateb gweithgareddau'n ddigon da i anghenion disgyblion ac mae disgyblion yn treulio gormod o amser yn cwblhau tasgau diymdrech. Mae hyn oherwydd nad yw cynllunio athrawon yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth benodol y maent am i ddisgyblion eu dysgu. Yn y gwersi hyn, yn aml, nid yw athrawon yn rheoli trafodaethau dosbarth nac yn defnyddio holi i ddatblygu meddwl disgyblion yn ddigon da.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar addas i gefnogi cynnydd disgyblion. Mewn ychydig o achosion, maent yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn ymyrryd yn fedrus ac yn gyflym i fynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau. Mewn tua hanner yr achosion, mae athrawon yn defnyddio adborth ysgrifenedig yn addas i osod targedau i ddisgyblion ar gyfer gwella, er enghraifft trwy adolygiadau 'Pit Stop'. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwella eu gwaith yn nodedig yn sgil cyngor eu hathrawon. At ei gilydd, mae adborth ysgrifenedig yn cael effaith gyfyngedig ar gynnydd disgyblion. Yn rhy aml, mae athrawon yn rhy hael â'u canmoliaeth ac nid ydynt yn ei gwneud yn ddigon clir i ddisgyblion sut gallant wella eu gwaith. Yn y lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn herio gwaith o ansawdd gwael neu waith anghyflawn.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adlewyrchu cyd-destun ac amrywiaeth ei chymuned yn addas ac yn bodloni anghenion llawer o ddysgwyr. Yn 'Cam Nesaf', er enghraifft, caiff disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol gymorth da trwy gwricwlwm sy'n cynnwys gweithgareddau synhwyraidd a chymwysterau amgen perthnasol. Yng nghyfnod allweddol 4, gall disgyblion astudio ystod gynhwysfawr o gyrsiau academaidd a galwedigaethol, gan gynnwys peirianeg, ffotograffiaeth, adeiladu, y cyfryngau a thecstilau. Fodd bynnag, nid yw prosesau i roi cyngor ac arweiniad i ddisgyblion a rhieni am opsiynau ôl-16 yn cael eu cydlynu na'u cyfleu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn datblygu gweledigaeth briodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru sy'n adlewyrchu ei hardal leol a'r tu hwnt. Mae wedi dechrau gweithio ag ysgolion cynradd y clwstwr i sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth gyffredin o sut dylai medrau a gwybodaeth disgyblion ddatblygu dros gyfnod.

Nid oes gan yr ysgol ymagwedd ddigon effeithiol i ddatblygu'r ystod lawn o fedrau disgyblion. Er enghraifft, nid yw ei darpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol. Yn benodol, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gwblhau tasgau ysgrifennu estynedig ystyrlon mewn pynciau gwahanol. Nid oes gan yr ysgol ymagwedd ddigon gydlynus tuag at

wella cywirdeb technegol ysgrifennu disgyblion ac nid yw'n cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm.

Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddefnyddio eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid oes ymagwedd ddigon cydlynus tuag at ddatblygu'r medrau hyn yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Nid yw darpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae'r ymagwedd ysgol gyfan tuag at ddatblygu medrau Cymraeg a dealltwriaeth o hunaniaeth a diwylliant Cymreig yn gyfyngedig. Nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn mynychu unrhyw wersi Cymraeg ar hyn o bryd.

Mae disgyblion yn cael cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyfoethogi buddiol y tu allan i wersi. Er enghraifft, mae llyfrgell yr ysgol yn cynnig cyfle defnyddiol i ddisgyblion ymarfer eu medrau darllen ac ysgrifennu ac mae gweithgareddau amser cinio yn cynnwys y Clwb Cwisiau a'r Clwb Ysgrifennu Creadigol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn Ysgol Uwchradd Cei Connah yn meithrin amgylcheddol anogol a chynhwysol. Maent wedi datblygu arlwy eang addas o ddarpariaeth – wedi'u cefnogi'n briodol gan bartneriaid allanol, fel yr heddlu ac asiantaethau iechyd – i gynorthwyo disgyblion â'u lles personol, cymdeithasol ac emosiynol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth sy'n cael ei gynnig iddynt. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn cael effaith ddigon cyson ar bresenoldeb disgyblion na'u hymgysylltiad â'u dysgu.

Mae'r tîm ADY yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol yn dda ag ystod o ddarpariaeth deilwredig. Mae'n cynnig arweiniad buddiol i athrawon, fel y wefan ADY, proffiliau un-dudalen a mapiau darpariaeth unigol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio'r adnoddau hyn yn ddigonol i gynllunio ar gyfer anghenion y disgyblion hyn yn eu gwersi. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn wrth bontio i'r system ADY newydd. Mae staff, disgyblion, eu teuluoedd ac asiantaethau perthnasol eraill yn cyfrannu'n ddefnyddiol at gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyfarfodydd adolygu.

Mae'r ysgol yn cynnig cymorth buddiol i ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tîm dynodedig yn cynnig sesiynau unigol a sesiynau grŵp i'r disgyblion hyn i ddatblygu eu medrau iaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i fanteisio ar y cwricwlwm a chyfathrebu'n hyderus â'u cyfoedion. Mae 'Cam Nesaf' yn cynnig cymorth effeithiol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol trwy raglenni wedi'u personoli, sy'n gwella ymgysylltiad y disgyblion hyn â'u dysgu.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o strategaethau i olrhain presenoldeb a chefnogi disgyblion a'u teuluoedd lle nodwyd bod presenoldeb yn peri pryder. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau hyn wedi cael effaith ddigonol ar wella presenoldeb ers pandemig COVID-19. Mae absenoldeb cyson ychydig iawn o ddisgyblion yn peri pryder.

Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn cynnwys arweiniad lled briodol yn ymwneud â gwobrau a chosbau. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn y modd y mae staff yn rheoli ymddygiad ac yn cofnodi digwyddiadau, ac nid yw arweinwyr wedi datblygu

ymagwedd ddigon strategol tuag at hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn benodol, nid yw systemau i fonitro ymddygiad a chynnig ymyriadau addas yn glir, yn ddealladwy nac wedi'u cydlynu'n ddigon da.

Mae disgyblion yn elwa ar ymagwedd strwythuredig addas tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae cyfnodau tiwtor a gwasanaethau ysgol yn cael eu defnyddio'n briodol i fyfyrion ar agweddau at gydraddoldeb ac amrywiaeth, er enghraifft trwy'r fenter '*Kindness Matters*'. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol trwy ddarpariaeth allgyrsiol, fel gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol, '*Pride and Shine*' a chlybiau lles.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu priodol. Mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu'n cael trafferth. Maent yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i rannu pryderon ag aelodau staff allweddol yn ystod sesiynau galw heibio wythnosol. Mae arweinwyr yn rhoi arweiniad addas i staff ar eu cyfrifoldebau o ran ymdrin â materion diogelu. Mae'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu rheolaidd ar lefel briodol. O ganlyniad, mae staff yn ymwybodol o sut i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae gan yr ysgol weithdrefnau recriwtio diogelwch cadarn ac mae'n sicrhau bod pob aelod staff newydd yn cael gwybodaeth ddiogelu ar ôl cael eu penodi.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Er y bu'r rhan fwyaf o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ei le ers sawl blynedd, bu gan yr ysgol nifer o benaethiaid gwahanol ers yr arolygiad diwethaf. Mae gan y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar iawn weledigaeth glir y mae'n dechrau ei rhannu. Mae hyn yn cynnwys cyflawniad uchel i bob disgybl, ynghyd â sicrhau eu diogelwch a lles. Mae'n casglu ynghyd yn gyflym ddarlun realistig o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Yn gyffredinol, mae staff yn deall blaenoriaethau cyfredol yr ysgol yn dda a sut mae eu rolau'n cyfrannu atynt. Fodd bynnag, dros gyfnod, mae rolau a chyfrifoldebau yn yr uwch dîm arweinyddiaeth wedi dod yn anghyfartal ac yn aneglur. O ganlyniad, mae'n anodd dwyn uwch arweinwyr i gyfrif yn gadarn ac nid yw arweinwyr yn cyflawni eu rolau'n ddigon effeithiol bob tro.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o weithgareddau i werthuso cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, er eu bod yn cydnabod yr angen i wella addysgu, mae'r prosesau maent yn eu defnyddio i gasglu a gwerthuso tystiolaeth uniongyrchol yn canolbwyntio gormod ar gydymffurfio â pholisïau'r ysgol yn hytrach na'u heffaith ar gynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid oes gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth ddigon manwl o effaith addysgu ar y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni na datblygiad eu medrau. Hefyd, er bod arweinwyr yn nodi blaenoriaethau lled addas ar gyfer gwella, nid ydynt yn ddigon manwl bob tro ynghylch yr agweddau penodol ar eu gwaith maent yn ceisio eu gwella, neu sut olwg fyddai ar lwyddiant. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i fonitro'n gywir yr effaith y mae camau gweithredu yn ei chael ar gynnydd disgyblion, cynllunio ar gyfer gwella neu dargedu dysgu proffesiynol i gael yr effaith orau. At ei gilydd, nid yw arweinwyr yn gwerthuso'n ddigon trylwyr ac nid ydynt wedi nodi gwendidau pwysig mewn addysgu, dysgu, arweinyddiaeth ac agweddau eraill ar waith yr ysgol.

Er bod cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, gyda meysydd cyson i'w trafod, nid yw uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn ddigon cadarn. Mae'r amrywioldeb o ran ansawdd y cymorth a'r her yn rhwystro datblygiad arweinwyr canol, ynghyd â'u gallu i sicrhau gwelliant yn eu meysydd cyfrifoldeb.

At ei gilydd, mae cysylltiadau addas rhwng rheoli perfformiad, blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella a dysgu proffesiynol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff, gan gynnwys paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, cyrsiau allanol a chyfleoedd i rannu arfer dda. Er enghraifft, mae'r CADYau cynorthwyol yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr, rheolaidd i weithwyr cymorth dysgu, sy'n eu helpu i roi strategaethau arbenigol ar waith yn llwyddiannus i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol yn ddigon da. Nid ydynt chwaith yn nodi'n ddigon manwl y dysgu proffesiynol sydd ei angen i wella addysgu ac agweddau pwysig eraill ar waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni. Fodd bynnag, mae lleiafrif o rieni'n teimlo bod cyfathrebu, er enghraifft adroddiadau ar gynnydd disgyblion, yn aneglur ambell waith ac nad yw'r ysgol yn rhoi gwybodaeth bwysig iddynt bob tro, neu mewn modd amserol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn frwdfrydig ac mae wedi cymryd camau addas i sicrhau bod trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Serch hynny, nid yw'r ffreutur yn cynnig ystod ddigon eang o ddewisiadau iach. Er bod gan lywodraethwyr ddealltwriaeth eang o waith yr ysgol, nid ydynt yn cael gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i herio pob agwedd ar waith uwch arweinwyr yn ddigon trylwyr.

Mae llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac mae ganddynt drefniadau priodol i wario'r gwarged cyfredol yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Caiff cyllid grant ei ddyrannu'n briodol i gefnogi lles a dysgu disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai sydd o aelwydydd ag incwm isel. Er enghraifft, mae'r ysgol yn helpu i ddarparu adnoddau i'r disgyblion hyn ac yn eu galluogi i fanteisio ar brofiadau ehangach, lle bo hynny'n briodol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (<http://www.estyn.llyw.cymru/>)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2023